**Bwrdd Cyflawni BGC Caerdydd**
**Cofnodion**
**Dydd Iau 4 Hydref 2018**
**Canolfan Gymunedol Butetown**

**Mynychwyr:**

**Aelodau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Paul Orders **(Cadeirydd)** | Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Sheila Hendrickson-Brown **(Is-gadeirydd)** | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd y Cyhoedd (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio (BIPCF) |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru (CNC) |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid (CC) |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd |
| Stephen Jones | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Hannah Williams | Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Joseph Reay | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau (CC) |
| Victoria Harris | Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| David Bents | Rheolwr Grŵp Gweithrediadau (GTADC) |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| | |
| **Mynychwyr eraill:** | |
| Gareth Newell | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil (CC) |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC) |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC) |
| Anne Wei | Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol (BIPCF) |
| **Eitem ychwanegol** | |
| PCC Alun Michael | |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru |
| **Eitem 3** | |
| Jane Thomas | |
| | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau |
| **Eitem 4** | (CC) |
| Nick Batchelar | |
| Lee Patterson | |
| | Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes (CC) |
| **Eitem 6** | Uwch Swyddog Ieuenctid – Rhaglen Dinas Sy'n |
| Andrew Gregory | Dda i Blant (CC) |
| Tom Porter | |
| Gary Brown | Cyfarwyddwr, Gweithrediadau'r Ddinas (CC) |
| | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| **Eitem 7** | Rheolwr Gweithredol Cynllunio Trafnidiaeth a'r |
| Andrew Robinson | Amgylchedd (CC) |

| | | |
|---|---|---|
| | Arweinydd Tîm Cynllunio (CNC) | |
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | |
| 8.1 | **Adborth Gweithdy Diogelwch Cymunedol**<br><br>(Ystyriwyd yr eitem gyntaf er mwyn hwyluso cyfraniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd)<br><br>Cynhaliwyd gweithdy Diogelwch Cymunedol ar 4 Hydref 2018 (am). Rhoes y CHTh Alun Michael drosolwg o'r trefniadau cyflenwi arfaethedig.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Mae angen sicrhau fod yr holl asiantaethau priodol yn rhan o’r gwaith hwn<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Yr eitem i’w ddwyn yn ôl ger bron y Bwrdd Cyflawni BGC er mwyn cael trafodaethau helaethach | **Stephanie Kendrick-Doyle**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br><u>Bwrdd Cyflawni y BGC:</u><br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2018.<br><br><u>BGC</u><br><br>Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod llawn y BGC a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2018 er gwybodaeth.<br><br>Tanlinellodd Paul Orders yr angen i alinio gwaith y Bwrdd Twf Dygn a’r bwrdd Rheoli Asedau parthed y manylebau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau mewn cymunedau newydd | **G. Newell / H. Thomas** |
| 3. | **Gwella Canlyniadau i Blant: Model Porth Teulu**<br><br>Rhoes Sarah McGill drosolwg o gefndir model y Porth Teulu, gan bwysleisio’r cynnydd yn y galw am wasanaethau a manteision ymyriadau buan.<br><br>Crynhodd Jane Thomas y model Cymorth a Chefnogaeth Deuluol arfaethedig sy’n cynnwys y Model Porth Teulu fel un o dair gwasanaeth newydd. Pwysleisiwyd yr angen i gydlynu adnoddau ar draws y sector cyhoeddus.<br><br>Rhoddwyd adborth cadarnhaol gan y bwrdd a chafwyd trafodaeth a oedd yn cynnwys edrych ar gyfleoedd i alinio â’r Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid a Gwasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed (GIMPG). | **Dim camau gweithredu** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **Dinasoedd sy'n Dda i Blant**<br><br>Rhoddodd Nick Batchelar drosolwg o'r nodau a ddewiswyd ar gyfer Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant, a'r modd y mae rhain yn alinio gyda'r hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud a'r hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym. Cadarnhaodd Lee Patterson fod pobl ifanc wedi cymeradwyo'r strategaeth ddrafft.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• CNC i ymgysylltu â chyfleoedd Amgylchedd Iach / Lesol<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Dosbarthu Nodyn i'r dyddiadur ynghylch Diwrnod Plant y Byd<br>• Dinasoedd Da i Blant i gael ei gynnwys ar agenda BGC mis Tachwedd<br><br>• Data wedi'i osod ar ganlyniadau i blant i'w ddosbarthu, gyda dadansoddiad pellach ar anghydraddoldebau, yn benodol parthed y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn 'y Bwa Deheuol'.<br><br>• Cyfeiriad i gael ei wneud ar ddinasyddiaeth actif o fewn y Strategaeth | <br><br><br><br><br><br><br>**Bwrdd CNC**<br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth/ Bwrdd DDB**<br><br>**Yr Ysgrifenyddiaeth/ Bwrdd DDB** |
| **5.** | **Ymddygiadau patrwm byw allweddol – Arolwg Cenedlaethol Cymru**<br><br>Rhoes Fiona Kinghorn drosolwg ar y negeseuon i Gaerdydd o Arolwg Cenedlaethol Cymru Mae Caerdydd yn perfformio'n dda mewn cyd-destun Cymreig. Ond mae lle i wella ymhellach.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Gwaith i gael ei wneud ar ddata anghydraddoldebau iechyd ledled y ddinas ac adrodd nôl arno i Fwrdd Cyflawni BGC. | <br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **6a.** | **Twf Gwydn: Diweddariad Ansawdd Aer**<br><br>Amlinellodd Paul Orders y sefyllfa bresennol ar Ansawdd yr Aer yng Nghaerdydd.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• CNC i fwydo'r naratif yn ymwneud a negeseuon/iaith iechyd (ar sail eu profiad nhw o fonitro ar safleoedd diwydiannol)<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• BGC i ystyried dewisiadau a ffefrir yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol unwaith y bo'r astudiaeth Ansawdd Aer wedi ei chwblhau.<br>• Papur gwyn ar drafnidiaeth i'w rannu gyda BGC fel rhan o'i ddatblygu | <br><br><br><br>**CNC**<br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| **6b.** | **Twf Gwydn: Teithio Llesol**<br><br>Dosbarthodd Tom Porter fesurau a thargedau arfaethedig ar gyfer sefydliadau BGC i ymrwymo iddynt. Y naratif o amgylch y mesurau rhain i gael eu datblygu. Cydnabuwyd y byddai'r targedau arfaethedig yn heriol.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Mesurau/targedau i gael eu hystyried gan holl aelodau'r BGC. Gyda golwg iddynt gael eu cymeradwyo yn y BGC.<br>• Canlyniadau arolwg mwy cynhwysfawr i gael eu rhannu<br>• Tom Porter i gynorthwyo trosglwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i Gynghorwyr.<br>• Cyfarfod i'w gynnal gyda phartneriaid i edrych ar gynllun mwy manwl yn ymwneud â cherbydau trydan. | **T. Porter / Ysgrifenyddiaeth**<br>**T. Porter / Ysgrifenyddiaeth**<br>**T. Porter**<br>**T. Porter / A. Gregory** |
| **7.** | **Twf Gwydn: Datganiad Ardal CNC**<br><br>Rhoes Andy Robinson drosolwg byr o Ddatganiadau Ardal. Cytunwyd oedi ar drafodaeth lawn ar yr eitem hon am fod rhai aelodau yn gorfod gadael yn fuan i fynychu cyfarfod arall.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Datganiad Ardal i'w ystyried yn iawn gan Fwrdd Cyflenwi'r BGC mewn cyfarfod yn y dyfodol (ar ôl iddo gael ei ddatblygu yn y Bwrdd Twf Gwydn) | **Ysgrifenyddiaeth CNC** |
| **8.** | **Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>**8.2 Oblygiadau Brexit**<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Ail-gynnull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Brexit i edrych ar oblygiadau Brexit "dim dêl"<br><br>**8.3 Blaen Gynllun – eitem ar gyfer BGC Tachwedd**<br><br>**CYTUNWYD**<br>• Eitemau wedi eu cytuno ar gyfer BGC Tachwedd | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| | **Cloi**<br><br>**Amserlen cyfarfodydd:**<br><br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 20 Tachwedd 2018<br>• Bwrdd Cyflawni'r BGC 25 Ionawr 2019<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 13 Mawrth 2019 | |